

Agenda – Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd	Alun Davidson
Dyddiad: Dydd Iau, 26 Tachwedd 2015	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30	0300 200 6565
	SeneddAmgylch@Cynulliad.Cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

2 Bil yr Amgylchedd (Cymru) – Cyfnod 2 – ystyried y gwelliannau

(09:30 – 15:00)

(Tudalennau 1 – 53)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.21, bydd y Pwyllgor yn gwaredu'r gwelliannau i'r Bil yn y drefn ganlynol:

Adrannau 1 – 89

Atodlenni 1–2

Teitl hir

Yn bresennol:

Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Andy Fraser, Pennaeth Rheoli Adnoddau Naturiol

Lori Frater, Cynghorydd Technegol – Diwygio Deddfwriaethol

Nicola Charles, Cyfreithiwr



RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil yr Amgylchedd (Cymru) Environment (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
 Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
 cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
 17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
 under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
 the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—
 The Bill will be considered in the following order—

Sections 1 - 89	Adrannau 1 - 89
Schedules 1-2	Atodlenni 1-2
Long Title	Teitl Hir

Russell George

14

Section 2, page 1, after line 16, insert—

'() landscapes;'

Adran 2, tudalen 1, ar ôl llinell 18, mewnosoder—

'() tirweddau;'



Llyr Gruffydd

91

Section 3, page 2, line 1, leave out 'the resilience of ecosystems and the benefits they provide and, in so doing, meet the needs of present generations of people without compromising the ability of future generations to meet their needs.' and insert 'a biodiverse natural environment with healthy functioning ecosystems that support social, economic and ecological resilience and the capacity to adapt to change (for example climate change).'

Adran 3, tudalen 2, llinell 1, hepgorer 'cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny, ddiwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau' a mewnosoder 'amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd).'

Carl Sargeant

42

Section 3, page 2, line 3, after 'needs', insert 'and contribute to the achievement of the well-being goals in section 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2).'

Adran 3, tudalen 2, llinell 3, ar ôl 'hwythau', mewnosoder 'a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).'

William Powell

Gyda chefnogaeth / Supported by: Llyr Gruffydd

21

Section 3, page 2, after line 3, insert –

- '(3) In this Act "ecosystem" has the same meaning as in the United Nations Environmental Programme Convention on Biological Diversity of 5 June 1992 as amended from time to time (or in any United Nations Convention replacing that Convention).'

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

- '(3) Yn y Ddeddf hon mae i "ecosystem" yr un ystyr ag a roddir i "ecosystem" yng Nghonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol dyddiedig 5 Mehefin 1992 fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd (neu mewn unrhyw Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n disodli'r Confensiwn hwnnw).'



William Powell

Gyda chefnogaeth / Supported by: Llyr Gruffydd

22

Section 4, page 2, after line 5, insert –

- '() act in accordance with the precautionary principle that where there are threats of serious or irreversible damage, lack of full scientific certainty is not to be used as a reason for postponing cost-effective measures to prevent environmental degradation;
- () act within environmental limits , which are the critical points at which pressure on a natural resource or system creates unreasonable or irreversible change to the resource or system itself, to the detriment of the human and other organisms to which it provides a service;'

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

- '() gweithredu yn unol â'r egwyddor ragofalus nad yw diffyg sicrwydd gwyddonol llawn i gael ei ddefnyddio fel rheswm dros ohirio mesurau cost-effeithiol i atal dirywiad amgylcheddol pan fo bygythiadau o ddifrod difrifol neu ddifrod na ellir ei ddadwneud;
- () gweithredu o fewn terfynau amgylcheddol, sef y pwyntiau critigol pryd y mae pwysau ar adnodd neu system naturiol yn creu newid afresymol neu newid na ellir ei ddadwneud i'r adnodd neu'r system ei hun, er anfantais i'r organeddau dynol a'r organeddau eraill y mae'n darparu gwasanaeth iddynt;'

Carl Sargeant

1

Section 4, page 2, line 6, leave out 'and reviewing' and insert ', reviewing and, where appropriate, changing'.

Adran 4, tudalen 2, hepgorer llinell 7 a mewnosoder ', adolygu a, phan fo hynny'n briodol, newid'.

Carl Sargeant

2

Section 4, page 2, after line 8, insert –

- '() make appropriate arrangements for public participation in decision-making;'

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

- '() gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau;'

Russell George

15

Section 4, page 2, line 11, after 'resources', insert ', landscapes'.

Adran 4, tudalen 2, llinell 12, ar ôl 'naturiol', mewnosoder ', tirweddau'.



Russell George

16

Section 4, page 2, after line 12, insert—

‘() to safeguard those characteristic features of a landscape consistent with its heritage value, be they derived from its natural configuration and/or from human activity;’.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 12, mewnosoder—

‘() diogelu’r nodweddion hynny o dirwedd sy’n gyson â’i gwerth treftadaeth, pa un a ydynt yn deillio o’i chyfluniad naturiol a/ neu o weithgarwch dynol;’.

Carl Sargeant

43

Section 4, page 2, after line 13, insert—

‘() take action to prevent serious or irreversible damage to ecosystems;’.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

‘() cymryd camau i atal niwed difrifol neu ddi-droi’n-ôl i ecosystemau;’.

Janet Haworth

118

Section 4, page 2, after line 13, insert—

‘() take account of the importance of food production;’.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

‘() ystyried pwysigrwydd cynhyrchu bwyd;’.

Janet Haworth

119

Section 4, page 2, after line 13, insert—

‘() take account of the importance of tourism’.

Adran 4, tudalen 2, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

‘() ystyried pwysigrwydd twristiaeth;’.



Carl Sargeant

44

Section 5, page 2, line 27, leave out 'seek to achieve' and insert 'pursue'.

Adran 5, tudalen 2, llinell 27, hepgorer 'ceisio cyflawni rheoli' a mewnosoder 'ymgyrraedd at reoli'.

Llyr Gruffydd

92

Section 6, page 3, after line 9, insert –

'() In this Part "biodiversity" has the same meaning as has "biological diversity" in the United Nations Environmental Programme Convention on Biological Diversity of 5 June 1992 as amended from time to time (or in any United Nations Convention replacing that Convention).'

Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

'() Yn y Rhan hon mae i "bioamrywiaeth" yr un ystyr ag a roddir i "biological diversity" yng Nghonfensiwn Rhaglen Amgylcheddol y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol dyddiedig 5 Mehefin 1992 fel y caiff ei ddiwygio o bryd i'w gilydd (neu mewn unrhyw Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n disodli'r Confensiwn hwnnw).'

William Powell

79

Section 6, page 3, line 11, after 'promote', insert 'biodiversity and'.

Adran 6, tudalen 3, llinell 13, hepgorer 'cydnerthedd' a mewnosoder 'bioamrywiaeth a chydnerthedd'.

Llyr Gruffydd

93

Section 6, page 3, after line 19, insert –

'() In complying with subsection (1), a public authority must take account of the list of living organisms and types of habitat published under section 7.'

Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

'() Wrth gydymffurfio ag isadran (1), rhaid i awdurdod cyhoeddus ystyried y rhestr o organeddau byw a mathau o gynefinoedd a gyhoeddir o dan isadran 7.'

Llyr Gruffydd

94

Section 6, page 3, line 26, after 'subsection', insert 'and any action which it considers necessary to improve compliance with the duty in that subsection'.

Adran 6, tudalen 3, llinell 29, ar ôl 'honno', mewnosoder 'ac unrhyw weithredoedd y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol i wella cydymffurfiad â'r ddyletswydd yn yr is-adran honno'.



Llyr Gruffydd

95

Section 6, page 3, after line 27, insert –

- '() A report published by Welsh Ministers under this section must have regard to –
- (a) The most recent report published under section 8,
 - (b) Any national indicators and milestones published pursuant to section 10 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 which they consider to be relevant to the duty in subsection (1).'

Adran 6, tudalen 3, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

- '() Rhaid i adroddiad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon roi sylw i –
- (a) Yr adroddiad diweddaraf o dan adran 8,
 - (b) Unrhyw gerrig milltir a dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddir yn unol ag adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 y maent yn ystyried eu bod yn berthnasol i'r ddyletswydd yn is-adran (1).'

Llyr Gruffydd

96

Section 6, page 4, after line 32, insert –

- '(8) The Welsh Ministers must issue guidance to public authorities to which this section applies as to the activities they should undertake to comply with the duty in subsection (1).
- (9) Public authorities to which this section applies must have regard to guidance issued by the Welsh Ministers under subsection (8).'

Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- '(8) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau cyhoeddus y mae'r adran hon yn gymwys iddynt ynghylch y gweithgareddau y dylent ymgymryd â hwy er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd yn isadran (1).
- (9) Rhaid i awdurdodau cyhoeddus y mae'r adran hon yn gymwys iddynt roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan isadran (8).'



William Powell

80

Section 7, page 5, line 2, after ‘(“NRW”)’, insert –

’, and

- () such other persons or bodies as appear to them to represent interests concerned with maintaining and enhancing biodiversity in Wales’.

Adran 7, tudalen 5, llinell 2, ar ôl ‘(“CNC”)’, mewnosoder –

’a

- () y personau neu’r cyrff eraill yr ymddengys iddynt hwy eu bod yn cynrychioli buddiannau sy’n ymwneud â chynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru’.

Llyr Gruffydd

97

Section 7, page 5, line 3, after ‘list’, insert –

’, and

- () publish any response received from NRW’.

Adran 7, tudalen 5, llinell 3, ar ôl ‘rhestr’, mewnosoder –

’, a

- () cyhoeddi unrhyw ymateb a dderbynnir gan CNC.’.

William Powell

81

Section 7, page 5, after line 3, insert –

‘() At the same time as publishing a list under this section, the Welsh Ministers must publish a statement which sets out –

- (a) how any representations made under subsection (2) have been taken into account; and
- (b) their reasons for including each living organism and habitat on the list.’.

Adran 7, tudalen 5, ar ôl llinell 3, mewnosoder –

‘() Ar yr un pryd â chyhoeddi rhestr o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy’n nodi –

- (a) sut y cafodd unrhyw sylwadau a wnaed o dan is-adran (2) eu hystyried; a
- (b) eu rhesymau dros gynnwys pob organedd byw a chynefin ar y rhestr.’.



Carl Sargeant

3

Section 7, page 5, line 5, leave out 'such steps as appear to them to be reasonably practicable' and insert 'all reasonable steps'.

Adran 7, tudalen 5, llinell 5, hepgorer 'y camau hynny y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol' a mewnosoder 'pob cam rhesymol'.

William Powell

23

Page 5, after line 14, insert new section—

[1] The 2050 Biodiversity target

- (1) The Welsh Ministers must take all reasonable steps to ensure that by 2050, the national biodiversity index has increased by at least 15% since publication of any list under section 7(1) of this Act.
- (2) In this section the "national biodiversity index" means an index specified by the Welsh Ministers and which in the opinion of the Welsh Ministers is an accurate record of the population trends of species identified as being of principal importance for the purposes of maintaining and enhancing biodiversity under section 7(1) of this Act.'

Tudalen 5, ar ôl llinell 16, mewnosoder adran newydd—

[1] Targed bioamrywiaeth 2050

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y mynegai bioamrywiaeth cenedlaethol, erbyn 2050, wedi cynyddu o leiaf 15% ers cyhoeddi unrhyw restr o dan adran 7(1) o'r Ddeddf hon.
- (2) Yn yr adran hon ystyr "mynegai bioamrywiaeth cenedlaethol" yw mynegai a bennir gan Weinidogion Cymru ac sydd ym marn Gweinidogion Cymru yn gofnod cywir o dueddiadau poblogaeth rhywogaethau y nodir eu bod o bwysigrwydd pennaf at ddibenion cynnal a gwella bioamrywiaeth o dan adran 7(1) o'r Ddeddf hon.'

Janet Haworth

120

Section 8, page 5, at the beginning of line 17, insert 'Subject to its capacity to do so'.

Adran 8, tudalen 5, ar ddechrau llinell 19, mewnosoder 'Yn ddarostyngedig i'w gapasiti i wneud hynny'.

Russell George

17

Section 8, page 5, line 18, after 'of' at the second place where it appears, insert 'landscapes and'.

Adran 8, tudalen 5, llinell 20, ar ôl 'gyflwr', mewnosoder 'tirweddau ac'.



William Powell

24

Section 8, page 5, line 18, after 'including', insert 'but not limited to,'.

Adran 8, tudalen 5, llinell 21, ar ôl 'gyflawni', mewnosoder 'ond heb fod yn gyfyngedig i hynny'.

William Powell

25

Section 8, page 5, line 19, after 'achieved.', insert –

'and,

- () an assessment of past and future trends regarding the state of natural resources in relation to Wales, including the risks to, and opportunities for, sustainable natural resource management in Wales.'

Adran 8, tudalen 5, llinell 21, ar ôl 'gyflawni' mewnosoder –

'a,

- () asesiad o dueddiadau'r gorffennol a'r dyfodol ynglŷn â chyflwr adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru, gan gynnwys y peryglon a'r cyfleoedd i reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol yng Nghymru.'

Llyr Gruffydd

98

Section 8, page 5, line 19, after 'achieved', insert –

', and

- () the actions taken to improve the achievement of sustainable management of natural resources, the consequences of those actions and further proposed actions'.

Adran 8, tudalen 5, llinell 21, ar ôl 'gyflawni', mewnosoder –

', a

- () y camau a gymerir i wella'r modd o sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy, canlyniadau'r camau hynny a chamau arfaethedig pellach'.

Llyr Gruffydd

99

Section 8, page 5, line 19, after 'achieved', insert –

', and

- () an assessment of the status of the organisms and habitats listed under section 7'.

Adran 8, tudalen 5, llinell 21, ar ôl 'gyflawni', mewnosoder –

', a

- () asesiad o statws yr organeddau a'r cynefinoedd a restrir o dan adran 7'.



William Powell

26

Section 8, page 5, after line 19, insert –

- '() the status of the organisms and types of habitat listed under section 7(1), including the status of the national biodiversity index; and
- () the progress towards the target in section [inserted by Amendment 23] having regard to any actions required in section 9(2)(c).'

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- '() statws yr organeddau a'r mathau o gynefinoedd a restrir o dan adran 7(1), gan gynnwys statws y mynegai bioamrywiaeth cenedlaethol; ac
- () y cynnydd tuag at y targed yn adran [i'w mewnosod gan Welliant 23] gan roi sylw i unrhyw weithredoedd sy'n ofynnol yn adran 9(2)(c).'

William Powell

82

Section 8, page 5, after line 19, insert –

- '() In complying with its duty under subsection (1) NRW must have regard to any national indicators and milestones published pursuant to section 10 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 which are relevant to the sustainable management of natural resources.'

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- '() Wrth gydymffurfio â'i ddyletswydd o dan is-adran (1) rhaid i CNC roi sylw i unrhyw ddangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol yn unol ag adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n berthnasol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.'

Carl Sargeant

45

Section 8, page 5, line 23, leave out 'the year in which the next' and insert 'a year in which an'.

Adran 8, tudalen 5, llinell 25, hepgorer 'y flwyddyn y mae'r etholiad cyffredinol arferol nesaf' a mewnosoder 'unrhyw flwyddyn y mae etholiad cyffredinol arferol'.



Carl Sargeant

46

Section 8, page 5, after line 23, insert –

- '() NRW must send a draft of each report required by subsection (3) to the Welsh Ministers before the end of the calendar year preceding the year in which it must be published.'

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 25, mewnosoder –

- '() Rhaid i CNC anfon drafft o bob adroddiad sy'n ofynnol gan is-adran (3) at Weinidogion Cymru cyn diwedd y flwyddyn galendr sy'n dod cyn y flwyddyn y mae'n rhaid iddo gael ei gyhoeddi.'

Llyr Gruffydd

100

Section 8, page 5, after line 25, insert –

- '(5) The Welsh Ministers may not issue guidance or directions to NRW in relation to the content of reports prepared under this section.'

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

- '(5) Ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau na chyfarwyddydau i CNC mewn perthynas â chynnwys yr adroddiadau a baratoir o dan yr adran hon.'

William Powell

83

Section 9, page 5, line 29, leave out 'contributing to'.

Adran 9, tudalen 5, llinell 31, hepgorer 'cyfrannu at gyflawni' a mewnosoder 'cyflawni'.

Llyr Gruffydd

101

Section 9, page 5, after line 30, insert –

- '() The Welsh Ministers must publish any advice or responses that they receive as part of any consultation that they carry out before they publish the document referred to in subsection (1).'

Adran 9, tudalen 5, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- '() Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyngor neu ymateb a dderbynnir ganddynt fel rhan o unrhyw ymgynghoriad a gynhelir ganddynt cyn iddynt gyhoeddi'r ddogfen y cyfeirir ati yn is-adran (1).'



Carl Sargeant

47

Section 9, page 5, line 32, after 'priorities', insert ', risks'.

Adran 9, tudalen 5, llinell 34, ar ôl 'blaenoriaethau', mewnosoder ', y risgiau'.

William Powell

27

Section 9, page 5, line 32, after 'priorities', insert ', challenges'.

Adran 9, tudalen 5, llinell 34, ar ôl 'blaenoriaethau', mewnosoder ', yr heriau'.

William Powell

28

Section 9, page 5, line 33, leave out 'including' and insert –

- () the increase in the national biodiversity index the Ministers will aim to achieve in the period before the next review of the national natural resources policy;
- () the actions required to maintain and enhance the living organisms and types of habitat identified in any list published under section 7; and'.

Adran 9, tudalen 5, llinell 35, hepgorer 'gan gynnwys' a mewnosoder –

- () y cynnydd y bydd y Gweinidogion yn ceisio'i gyflawni yn y mynegai bioamrywiaeth cenedlaethol yn y cyfnod cyn adolygiad nesaf y polisi adnoddau naturiol cenedlaethol;
- () y gweithredoedd sy'n ofynnol er mwyn cynnal a gwella'r organeddau byw a'r mathau o gynefinoedd a nodir mewn unrhyw restr a gyhoeddir o dan adran 7; ac'.

Carl Sargeant

48

Section 9, page 5, line 34, after 'change', insert 'and biodiversity'.

Adran 9, tudalen 5, llinell 36, ar ôl 'hinsawdd', mewnosoder 'a bioamrywiaeth'.

Llyr Gruffydd

102

Section 9, page 5, after line 34, insert –

- () The national natural resources policy must set out the actions that the Welsh Ministers consider necessary to maintain and enhance the status of the organisms and habitats listed under section 7'.

Adran 9, tudalen 5, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- () Rhaid i'r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol nodi'r gweithredoedd y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cynnal a gwella statws yr organeddau a'r cynefinoedd a restrir o dan adran 7'.



Janet Haworth

121

Section 9, page 5, after line 34, insert—

- ‘() The national natural resources policy must include the following—
- (a) a hierarchy of objectives or a mechanism for prioritising objectives;
 - (b) a mechanism for resolving conflicts between objectives; and
 - (c) an action plan that sets out who will be responsible for delivering objectives in that plan.’.

Adran 9, tudalen 5, ar ôl llinell 36, mewnosoder—

- ‘() Rhaid i’r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol gynnwys y canlynol—
- (a) hierarchaeth o amcanion neu drefn ar gyfer blaenoriaethu amcanion;
 - (b) trefn ar gyfer datrys gwrthdaro rhwng amcanion; ac
 - (c) cynllun gweithredu sy’n nodi pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni amcanion yn y cynllun hwnnw.’.



Janet Haworth

122

Section 9, page 5, after line 34, insert –

- ‘() The national natural resources policy must include policies which:
- (a) set out the actions needed to maintain and enhance biodiversity, with reference to the list of living organisms and types of habitat published under section 7,
 - (b) take account of the role and full range of benefits that landscapes and seascapes provide, especially those that are designated as being of national importance,
 - (c) protect and restore the quality of soils, air and water (freshwater and marine),
 - (d) address the adaptation of natural resources to climate change,
 - (e) explain how Welsh Ministers will engage and incentivise delivery partners outside the public sector, and
 - (f) sets out how progress will be made towards those milestones published under section 10 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 that are relevant to the sustainable management of natural resources in Wales.’.

Adran 9, tudalen 5, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol gynnwys polisiau sy’n –
- (a) nodi’r camau y mae angen eu cymryd i gynnal a gwella bioamrywiaeth, trwy gyfeirio at y rhestr o organeddau byw a’r mathau o gynefinoedd a gyhoeddir o dan adran 7,
 - (b) ystyried rôl ac ystod lawn y manteision a gynigir gan dirweddau a morweddau yn, yn enwedig y rheini y dynodwyd eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol,
 - (c) diogelu ac adfer ansawdd priddoedd, aer a dŵr (dŵr croyw a dŵr y môr),
 - (d) ymdrin â’r broses o addasu adnoddau naturiol i newid yn yr hinsawdd,
 - (e) esbonio sut y bydd Gweinidogion Cymru yn ymgysylltu â phartneriaid cyflenwi y tu allan i’r sector cyhoeddus a’u cymell, ac
 - (f) nodi sut y gwneir cynnydd tuag at gyrraedd y cerrig milltir hynny a gyhoeddwyd o dan adran 10 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 sy’n berthnasol i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.’.



Russell George

18

Section 9, page 5, after line 37, insert –

- ‘() When preparing and publishing the national natural resources policy, the Welsh Ministers must have regard to the role and range of benefits that landscapes and seascapes provide.’.

Adran 9, tudalen 5, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

- ‘() Wrth baratoi a chyhoeddi’r polisi adnoddau naturiol cenedlaethol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i rôl tirweddau a morweddau a’r ystod o fanteision a gynigir ganddynt.’.

Carl Sargeant

4

Section 9, page 6, line 2, leave out ‘such steps as appear to them to be reasonably practicable’ and insert ‘all reasonable steps’.

Adran 9, tudalen 6, llinell 2, hepgorer ‘y camau hynny y mae’n ymddangos iddynt eu bod yn rhesymol ymarferol’ a mewnosoder ‘pob cam rhesymol’.

Llyr Gruffydd

103

Section 9, page 6, line 8, after ‘policy’, insert ‘within 12 months’.

Adran 9, tudalen 6, llinell 8, ar ôl ‘pob’, mewnosoder ‘o fewn 12 mis i bob’.

William Powell

Gyda chefnogaeth/ Supported by: Llyr Gruffydd

29

Section 10, page 6, after line 24, insert –

- ‘() The area statements published under subsection (1) must together cover the whole of Wales, including coastal areas out to the low water mark.’.

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r datganiadau ardal a gyhoeddir o dan isadran (1) gyda’i gilydd gwmpasu Cymru gyfan, gan gynnwys ardaloedd arfordirol hyd at y marc distyll.’.

William Powell

84

Section 10, page 6, after line 24, insert –

- ‘() Before publishing an area statement, NRW must –



- (a) prepare and publish a statement of public participation setting out their policies relating to the consultation to be carried out in preparing area statements, and
- (b) carry out consultation in accordance with that statement.
- () In particular the statement of public participation must include provision about –
 - (a) the form that the consultation will take,
 - (b) when the consultation will take place,
 - (c) the steps that will be taken to involve members of the public in the preparation of the area statement, and
 - (d) the publication of consultation responses.
- () The statement of public participation must provide that, as part of the consultation, NRW will –
 - (a) publish a draft of the area statement, together with any evidence used in developing the area statement,
 - (b) allow a period of 12 weeks beginning with the publication of an area statement during which any person may make representations with regard to the draft, and
 - (c) explain how they have taken any representations into account.’.

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘() Cyn cyhoeddi datganiad ardal, rhaid i CNC –
 - (a) paratoi a chyhoeddi datganiad o gyfranogaeth gyhoeddus sy’n nodi eu polisiau mewn perthynas â’r ymgynghoriad sydd i’w gynnal wrth baratoi datganiadau ardal, a
 - (b) cynnal ymgynghoriad yn unol â’r datganiad hwnnw.
- () Yn benodol rhaid i’r datganiad o gyfranogaeth gyhoeddus gynnwys darpariaeth ynghylch –
 - (a) ffurf yr ymgynghoriad,
 - (b) pryd y cynhelir yr ymgynghoriad,
 - (c) y camau a fydd yn cael eu cymryd i gynnwys aelodau’r cyhoedd wrth baratoi’r datganiad ardal, a
 - (d) cyhoeddi ymatebion i’r ymgynghoriad.
- () Rhaid i’r datganiad o gyfranogaeth gyhoeddus ddarparu y bydd CNC, fel rhan o’r ymgynghoriad, yn –
 - (a) cyhoeddi drafft o’r datganiad ardal, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth a ddefnyddiwyd i ddatblygu’r datganiad ardal,
 - (b) caniatáu cyfnod o 12 wythnos yn dechrau gyda chyhoeddi datganiad ardal pryd y caiff unrhyw berson wneud sylwadau ynghylch y drafft, ac
 - (c) esbonio sut y maent wedi ystyried unrhyw sylwadau.’.



Janet Haworth

123

Section 10, page 6, after line 24, insert—

- '() Before publishing an area statement, NRW must consult—
- (a) any public body specified in section 11(1) who exercises functions in the area covered by the area statement,
 - (b) a water or sewerage undertaker who exercises functions in the area covered by the area statement, and
 - (c) such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate.'

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 24, mewnosoder—

- '() Cyn cyhoeddi datganiad ardal, rhaid i CNC ymgynghori ag—
- (a) unrhyw gorff cyhoeddus a bennir yn adran 11(1) ac sy'n arfer swyddogaethau yn yr ardal y mae'r datganiad ardal yn berthnasol iddi,
 - (b) ymgwymerwr dŵr neu garthffosiaeth sy'n arfer swyddogaethau yn yr ardal y mae'r datganiad ardal yn berthnasol iddi, ac
 - (c) personau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn eu hystyried yn briodol.'

Carl Sargeant

50

Section 10, page 6, leave out lines 27 to 29 and insert—

- '(a) explain why a statement has been prepared for the area, by reference to—
- (i) the natural resources in the area,
 - (ii) the benefits which the natural resources provide, and
 - (iii) the priorities, risks and opportunities for the sustainable management of natural resources which need to be addressed;
- (b) explain how the principles of sustainable management of natural resources have been applied in preparing the statement;
- (c) state how NRW proposes to address the priorities, risks and opportunities, and how it proposes to apply the principles of sustainable management of natural resources in doing so;
- (d) specify the public bodies which NRW considers may assist in addressing the priorities, risks and opportunities.'

Adran 10, tudalen 6, hepgorer llinellau 28 hyd at 31 a mewnosoder—

- '(a) egluro pam y paratowyd datganiad ar gyfer yr ardal, drwy gyfeirio at—
- (i) yr adnoddau naturiol yn yr ardal,
 - (ii) y manteision y mae'r adnoddau naturiol yn eu cynnig, a
 - (iii) y blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol y mae angen ymdrin â hwy;



- (b) egluro sut y mae egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wedi eu cymhwyso wrth baratoi'r datganiad;
- (c) datgan sut y mae CNC yn bwriadu ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd, a sut y mae'n bwriadu cymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol wrth wneud hynny;
- (d) pennu'r cyrff cyhoeddus y mae CNC yn ystyried y gallant gynorthwyo i ymdrin â'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd.'

Russell George

19

Section 10, page 6, at the beginning of line 28, insert 'landscapes and'.

Adran 10, tudalen 6, ar ddechrau llinell 29, mewnosoder 'dirweddau ac'

Llyr Gruffydd

104

Section 10, page 6, after line 29, insert—

- '(c) specify the actions that it considers necessary to maintain and enhance the status of the organisms and habitats listed under section 7 in the area to which the statement relates.'

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 31, mewnosoder—

- '(c) pennu'r gweithredoedd y mae'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn cynnal a gwella statws yr organeddau a'r cynefinoedd a restrir o dan adran 7 yn yr ardal y mae'r datganiad yn berthnasol iddi.'

Janet Haworth

124

Section 10, page 6, after line 29, insert—

- '() In considering the priorities, risks and opportunities for sustainable management of natural resources, NRW must consider the impact such priorities, risks and opportunities may have on the marine environment and state how they propose to address them.'

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 31, mewnosoder—

- '() Wrth ystyried y blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, rhaid i CNC ystyried effaith bosibl blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd o'r fath ar yr amgylchedd morol a datgan sut y maent yn cynnig ymdrin â hwy.'

Carl Sargeant

5

Section 10, page 6, line 31, leave out 'such steps as appear to it to be reasonably practicable' and insert 'all reasonable steps'.

Adran 10, tudalen 6, llinell 33, hepgorer 'y camau hynny y mae'n ymddangos i CNC eu bod yn rhesymol ymarferol' a mewnosoder 'pob cam rhesymol'.



*** Carl Sargeant**

49

Page 6, line 22, move section 10 and insert after section 11.

Tudalen 6, llinell 22, symuder adran 10 a'i fewnosod ar ôl adran 11.

Mae'r gwelliant hwn wedi'i symud i gydymffurfio â rheol drefnu sy'n ymofyn fod rhaid i welliannau i symud adran i gael ei ystyried ar ôl gwelliannau i'r adran honno.

This amendment has been moved to comply with a marshalling rule that requires amendments to move a section to be considered after amendments to that section.

Llyr Gruffydd

105

Page 7, after line 32, insert a new section –

{ [] Duty on public bodies

The public bodies specified in section 11 must take all reasonable steps to implement the area statements for the areas in relation to which they exercise functions.'

Tudalen 7, ar ôl llinell 35, mewnosoder adran newydd –

{ [] Dyletswydd ar gyrff cyhoeddus

Rhaid i'r gyrff cyhoeddus a bennir yn adran 11 gymryd pob cam rhesymol i weithredu'r datganiadau ardal ar gyfer yr ardaloedd y maent yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hwy.'

William Powell

85

Section 14, page 8, line 24, after 'provide', insert 'and publish'.

Adran 14, tudalen 8, llinell 25, hepgorer 'ddarparu'r' a mewnosoder 'ddarparu a chyhoeddi'r'.

William Powell

86

Section 14, page 8, line 25, after 'providing', insert 'or publishing'.

Adran 14, tudalen 8, llinell 25, ar ôl 'darparu', mewnosoder 'neu ei chyhoeddi'.

William Powell

87

Section 15, page 9, line 3, after 'provide', insert 'and publish'.

Adran 15, tudalen 9, llinell 3, hepgorer 'ddarparu'r' a mewnosoder 'ddarparu a chyhoeddi'r'.



William Powell

88

Section 15, page 9, line 4, after 'providing', insert 'or publishing'.

Adran 15, tudalen 9, llinell 4, ar ôl 'darparu', mewnosoder 'neu ei chyhoeddi'.

Carl Sargeant

51

Section 22, page 12, line 20, leave out 'the person;' and insert –

'a person;

- () requiring a person to whom an exemption or relaxation applies to comply with conditions specified in the regulations;'

Adran 22, tudalen 12, llinell 20, hepgorer 'i'r person;' a mewnosoder –

'i berson;

- () sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson y mae eithriad neu lacio gofyniad yn gymwys iddo gydymffurfio ag amodau a bennir yn y rheoliadau;'

Carl Sargeant

52

Section 22, page 12, line 21, leave out 'its application to the person in a way the Welsh Ministers consider necessary in consequence of any provision made by virtue of paragraph (a) or (b)' and insert 'a way the Welsh Ministers consider necessary for the enforcement of, or in consequence of, any provision made by virtue of paragraphs (a) to (c)'.

Adran 22, tudalen 12, llinell 21, hepgorer 'wrth ei gymhwyso i'r person mewn modd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd paragraff (a) neu (b)' a mewnosoder 'mewn modd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn angenrheidiol er mwyn gorfodi unrhyw ddarpariaeth a wneir yn rhinwedd paragraffau (a) i (c), neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath'.

Janet Haworth

125

Section 22, page 12, after line 23, insert –

'() When NRW makes an application pursuant to subsection (1), it must forthwith publish all the documents submitted to the Welsh Ministers in support of its application.

() Regulations under subsection (1) must include provision requiring NRW to monitor and publish a report on the impact of an experimental scheme.'

Adran 22, tudalen 12, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

'() Pan fo CNC yn gwneud cais yn unol ag is-adran (1), rhaid iddo gyhoeddi yn ddiymdroi yr holl ddogfennau a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru i gefnogi ei gais.



- () Rhaid i reoliadau o dan isadran (1) gynnwys darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i CNC fonitro effaith cynllun arbrofol a chyhoeddi adroddiad arno.’.

Carl Sargeant

53

Section 22, page 12, after line 30, insert –

- ‘() must be satisfied that the regulations will not have the overall effect of increasing the regulatory burden on any person, and’.

Adran 22, tudalen 12, ar ôl llinell 31, mewnosoder –

- ‘() bod wedi eu bodloni na fydd y rheoliadau’n cael yr effaith gyffredinol o gynyddu’r baich rheoliadol ar unrhyw berson, a’.

Carl Sargeant

54

Section 22, page 13, after line 9, insert –

- ‘() Where provision has been made under subsection (1) to enable an experimental scheme to be carried out, NRW must –
- (a) evaluate the scheme at such time as it considers appropriate, and
 - (b) publish a report setting out the evaluation and describing any action that NRW considers should be taken in light of it.’.

Adran 22, tudalen 13, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

- ‘() Pan fo darpariaeth wedi ei gwneud o dan is-adran (1) i alluogi cynnal cynllun arbrofol, rhaid i CNC –
- (a) gwerthuso’r cynllun ar ba adeg bynnag y mae’n ystyried ei bod yn briodol, a
 - (b) cyhoeddi adroddiad sy’n nodi’r gwerthusiad ac yn disgrifio unrhyw gamau y mae CNC yn ystyried y dylid eu cymryd yng ngoleuni’r gwerthusiad.’.

Carl Sargeant

55

Section 23, page 14, line 3, after ‘techniques’, insert ‘, or to develop or test proposals for regulatory change’.

Adran 23, tudalen 14, llinell 3, ar ôl ‘addasedig’, mewnosoder ‘, neu i ddatblygu neu brofi cynigion ar gyfer newid rheoleiddiol’.

Carl Sargeant

56

Section 25, page 14, line 18, leave out ‘section 11(2) or 22(1)’ and insert ‘this Part’.

Adran 25, tudalen 14, llinell 21, hepgorer ‘adran 11(2) neu 22(1)’ a mewnosoder ‘y Rhan hon’.



Carl Sargeant 57

Section 25, page 14, line 24, leave out subsection (5).

Adran 25, tudalen 14, llinell 28, hepgorer is-adran (5).

Russell George 20

Section 26, page 14, after line 31, insert –

“landscape” means an area, as perceived by people, whose character is the result of the action and interaction of natural and/or human factors;’.

Adran 26, tudalen 15, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘ystyr “tirwedd” (“landscape”) yw ardal y mae ei nodwedd, yn ôl canfyddiad pobl, yn deillio o weithred a rhyngweithiad ffactorau naturiol a / neu ffactorau dynol’;’.

William Powell 30

Section 29, page 15, line 22, leave out ‘80%’ and insert ‘100%’.

Adran 29, tudalen 15, llinell 22, hepgorer ‘80%’ a mewnosoder ‘100%’.

Carl Sargeant 58

Section 29, page 15, after line 24, insert –

‘() The Welsh Ministers may by regulations amend subsection (1) so that it specifies a percentage greater than 80%.’.

Adran 29, tudalen 15, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

‘() Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (1) fel ei bod yn pennu canran sy’n fwy nag 80%.’.



Llyr Gruffydd

106

Section 29, page 15, after line 25, insert—

- '(4) The advisory body designated under section 44 must, before every fifth anniversary of the coming into force of this section, review and report on the adequacy of the 2050 emissions target.'

Adran 29, tudalen 15, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

- '(4) Rhaid i'r corff cyngori a ddynodir o dan adran 44, cyn pen pob cyfnod o bum mlynedd ar ôl i'r adran hon ddod i rym, adolygu digonolrwydd targed allyriadau 2050 a chyflwyno adroddiad ar hynny.'

Janet Haworth

126

Section 29, page 15, after line 25, insert—

- '(4) The Welsh Ministers must lay before the National Assembly for Wales a report in respect of each year in the period 2016-2050 on the progress made towards the 2050 emissions target.'

Adran 29, tudalen 15, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

- '(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn cysylltiad â phob blwyddyn yn y cyfnod 2016-2050 ar y cynnydd a wnaed tuag at darged allyriadau 2050.'

Carl Sargeant

59

Section 30, page 15, line 27, leave out subsection (1) and insert—

- '(1) For each interim target year, the Welsh Ministers must by regulations set a maximum amount for the net Welsh emissions account, expressed as a percentage below the baseline (an "interim emissions target").'

Adran 30, tudalen 15, llinell 27, hepgorer is-adran (1) a mewnosoder—

- '(1) Ar gyfer pob blwyddyn darged interim rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, osod uchafswm ar gyfer cyfrif allyriadau net Cymru, a fynegir fel canran islaw'r waelodlin ("targed allyriadau interim").'



Llyr Gruffydd

60A

As an amendment to amendment 60, line 1, after 'are', insert '2020,'.
Fel gwelliant i welliant 60, llinell 1, ar ôl 'yw', mewnosoder '2020,'.

Llyr Gruffydd

60B

As an amendment to amendment 60, after line 2, insert—
'(5) The interim emissions target for 2020 must be at least 40% lower than the baseline.'
Fel gwelliant i welliant 60, ar ôl llinell 2, mewnosoder—
(5) Rhaid i'r targed allyriadau dros dro ar gyfer 2020 fod o leiaf 40% yn is na'r gwaelodlin.'

Carl Sargeant

60

Section 30, page 15, after line 33, insert—
'(3) The interim target years are 2030 and 2040.
(4) The Welsh Ministers must set the interim emissions targets before the end of 2018.'

Adran 30, tudalen 15, ar ôl llinell 35, mewnosoder—

- '(3) Y blynyddoedd targed interim yw 2030 a 2040.
(4) Rhaid i Weinidogion Cymru osod y targedau allyriadau interim cyn diwedd 2018.'

Llyr Gruffydd

107

Section 31, page 16, line 10, leave out 'two budgetary periods before the end of 2018' and insert 'budgetary period before the end of 2017'.

Adran 31, tudalen 16, llinell 10, hepgorer 'ddau gyfnod cyllidebol cyntaf cyn diwedd 2018' a mewnosoder 'cyfnod cyllidebol cyn diwedd 2017'.

Llyr Gruffydd

108

Section 31, page 16, after line 11, insert—
'() set the carbon budget for the second and third budgetary periods before the end of 2018; and'.

Adran 31, tudalen 16, ar ôl llinell 11, mewnosoder—

- '() gosod y gyllideb garbon ar gyfer yr ail a'r trydydd cyfnod cyllidebol cyn diwedd 2018; ac'.



- Llyr Gruffydd** 109
Section 31, page 16, line 12, leave out 'third' and insert 'fourth'.
Adran 31, tudalen 16, llinell 12, hepgorer 'trydydd' a mewnosoder 'pedwerydd'.
- Carl Sargeant** 61
Section 32, page 16, line 23, after 'changing', insert 'the 2050 emissions target'.
Adran 32, tudalen 16, llinell 23, ar ôl 'newid', mewnosoder 'targed allyriadau 2050'.
- Carl Sargeant** 62
Section 32, page 16, line 23, leave out 'an interim target year'.
Adran 32, tudalen 16, llinell 23, hepgorer 'blwyddyn darged interim'.
- Carl Sargeant** 63
Section 32, page 16, line 32, after 'regulations', insert 'changing the 2050 emissions target, or'.
Adran 32, tudalen 16, llinell 33, ar ôl 'sy'n', mewnosoder 'newid targed allyriadau 2050, neu'n'.
- Carl Sargeant** 64
Section 32, page 16, line 32, leave out 'an interim target year'.
Adran 32, tudalen 16, llinell 33, hepgorer 'blwyddyn darged interim'.
- William Powell**
- Gyda chefnogaeth/ Supported by: Llyr Gruffydd** 31
Section 32, page 16, after line 33, insert –
() the principle that global warming should be kept within 2 degrees centigrade above average pre-industrial levels'.
Adran 32, tudalen 16, ar ôl llinell 34, mewnosoder –
() yr egwyddor y dylid cadw cynhesu byd-eang o fewn 2 radd canradd uwch ben y lefelau cynddiwydiannol cyfartalog'.



Janet Haworth

127

Section 32, page 16, after line 35, insert –

- () the importance of taking global responsibility for climate change,'.

Adran 32, tudalen 16, ar ôl llinell 36, mewnosoder –

- () pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb yn fyd-eang am newid yn yr hinsawdd,'.

Llyr Gruffydd

110

Section 32, page 17, line 5, after 'change', insert –

, and

- (g) what the Welsh Ministers consider to be a fair and equitable Welsh share of global carbon budgets in the context of the well-being goal of a globally responsible Wales in section 4 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015'.

Adran 32, tudalen 17, llinell 6, ar ôl 'hinsawdd', mewnosoder –

, a

- (g) yr hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn rhan deg a chyfiawn o gyllidebau carbon byd-eang Cymru yng nghyd-destun y nod llesiant o Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang yn adran 4 o Ddeddf Llesiant cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.

Llyr Gruffydd

111

Section 32, page 17, line 5, after 'change', insert –

, and

- (g) achieving a reduction of 40% in gross greenhouse gas emissions in Wales by 2020 from the baseline'.

Adran 32, tudalen 17, llinell 6, ar ôl 'hinsawdd', mewnosoder –

, a

